

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 7 MEDI 2023 10:00

Presennol

Y Cyngorydd RM Granville – Cadeirydd

H T Bennett
S Easterbrook
M R John

A R Berrow
S J Griffiths
W J Kendall

N Clarke
D T Harrison
J E Pratt

RJ Collins
D M Hughes
A Wathan

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M L Hughes

Swyddogion:

Rhodri Davies
Lee Evans
Craig Flower
Stephen Griffiths
Laura Griffiths
Rod Jones
Robert Morgan
Jonathan Parsons
Michael Pitman
Euan Sexton
Philip Thomas
Leigh Tuck

Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Uwch Swyddog Cynllunio
Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Cyfreithiwr
Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth
Rheolwr Grŵp Datblygu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Senior Planning Officer
Prif Swyddog Cynllunio
Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

Datganiadau o Ddiddordeb

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd M Hughes.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

2. Datganiadau o Fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	<p>Gwnaed y datganiadau o ddiddordeb a ganlyn:</p> <p>Y Cynghorydd J Pratt – Eitem 12 ar yr Agenda, Buddiant personol – Gan fod unigolyn a grybwyllir yn un o'r Apelau a ddaeth i law yn byw gyferbyn â thŷ ei rieni.</p> <p>Y Cynghorydd M John – Eitem 13 ar yr Agenda, Buddiant personol – Gan fod y cais cynllunio yn ei Ward.</p> <p>Y Cynghorydd S Easterbrook – Eitemau 8, 9, 10 ac 11 ar yr Agenda, Buddiant personol – Am ei fod yn aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr nad yw'n cymryd unrhyw ran mewn materion cynllunio.</p> <p>Y Cynghorydd A Wathan – Fel y datganiad blaenorol</p> <p>Y Cynghorydd D Hughes – Eitem 8 ar yr Agenda, Buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd bod perthynas iddi wedi gwrthwynebu'r cais, a hefyd am ei bod wedi gweithio gyda gwrthwynebydd arall cyn dod yn Gyngorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gadawodd y Cynghorydd Hughes y cyfarfod pan oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

3. Ymweliadau â Safleoedd

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno ar ddydd Mercher 18/10/2023 yn ddyddiad ar gyfer archwiliadau arfaethedig o safleoedd a fyddai'n codi yn y cyfarfod, neu a nodid gan y Cadeirydd cyn
------------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

	cyfarfod nesaf y Pwyllgor.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

4. Cymeradwyo Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y Pwyllgor dyddiedig 27/07/23 yn cael eu cymeradwyo yn gofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

5. Siaradwyr Cyhoeddus

Y penderfyniad a wnaed	<p>P/22/455/RLX – Gwrthwynebwyd – S Morse ac A Nelson, ar ran y Cynghorydd DA Unwin, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Asiant yr ymgeisydd, R Chichester. Darllenodd y Swyddog Cyfreithiol ddatganiad hefyd ar ran y ddau aelod o'r Ward, y Cynghorwyr S Bletsoe a T Wood.</p> <p>P/23/220/FUL – ar ran y Cynghorydd DA Unwin, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, darllenodd y Swyddog Cyfreithiol ddatganiad hefyd ar ran Mr V a Mrs A Williams (gwrthwynebwyd) a datganiadau ar ran y ddau aelod o'r Ward, y Cynghorwyr S Bletsoe a T Wood.</p> <p>P/23/147/FUL – Gwrthwynebydd, R Leonard</p> <p>P/23/227/FUL – Darllenodd y Swyddog Cyfreithiol ddatganiadau ar ran y ddau aelod o'r Ward, y Cynghorwyr S Bletsoe a T Wood.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

6. Taflen Ddiwygio

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnau y Cyngor, derbyniodd y Cadeirydd Daflen Ddiwygio y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor roi sylw i ddiwygiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor fel y gellid ystyried sylwadau a diwygiadau hwyr yr oedd yn ofynnol eu cynnwys
------------------------	---

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023
-------------------------------	-------------

7. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a oedd yn amlinellu canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

**8. P/22/455/RLX – Coed Parc, Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31
4BA**

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno i ohirio'r cais hwn er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y pellteroedd rhwng yr anheddau a'r eiddo cyfagos, ac i gadarnhau y gall y pellteroedd gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau. Cynnig Amrywio amod 1 o P/22/85/RLX i amnewid cynlluniau, a chynnig cynlluniau tai diwygiedig ar gyfer Cam 3 y datblygiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

**9. P/23/220/FUL - 33 Heol-y-Nant, Cefn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31
4HT**

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Rhoi caniatâd ar gyfer y cais, a hynny'n unol â'r amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. Cynnig Newid defnydd ôl-weithredol o dŷ annedd (dosbarth defnydd C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) (dosbarth defnydd C4) ar gyfer uchafswm o 4 o bobl
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

--	--

10. P/23/227/FUL – 61 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AX

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Rhoi caniatâd ar gyfer y cais, a hynny'n unol â'r amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau: Cynnig Newid defnydd o annedd i Dŷ Amlfeddiannaeth ar gyfer uchafswm o 6 o bobl
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

11. P/23/147/FUL – Cefn 82 Heol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3NN

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor o blaid gwrthod y cais hwn a disgwyl am adroddiad pellach ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, gan amlinellu'r rheswm/rhesymau dros ei wrthod. (2) Penodi'r Cynghorydd J Pratt yn Aelod arweiniol i gysylltu â'r Swyddogion ynghylch y rhesymau dros wrthod y cais, fel y'u hawgrymwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl ar yr eitem. Cynnig Annedd ar wahân gyda garej a lle parcio ar y safle
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

12. Apelau

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: (1) Bod yr apelau a ddaeth i law ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fel y'u hamlygwyd yn adroddiad y
------------------------	--

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

	<p>Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn cael eu nodi.</p> <p>(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl a ganlyn wedi rhoi cyfarwyddyd i Wrthod yr Apêl:</p> <p>Rhif yr Apêl – CAS-02289-T3Y1C3 (1973)</p> <p>Testun yr Apêl – Cais amlinellol am Ddatblygiad Preswyl ar gyfer 15 o anheddau, gyda chymeradwyaeth ar gyfer mynediad: Tir ger Heol Tondu, i'r gogledd o Pascoes Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

13. P/23/218/FUL – Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin, Pen-y-bont ar Ogwr

Y penderfyniad a wnaed	<p>O ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar y cais uchod, gweithredodd y Pwyllgor fel a ganlyn:</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ol style="list-style-type: none">(1) Bod yr aelodau'n cytuno i gynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i ystyried Cais P/23/218/FUL.(2) Y dylai'r fformat ar gyfer diwrnod y Pwyllgor Arbennig fod fel y'i disgrifir yn gyffredinol yn yr adroddiad ond yn amodol ar unrhyw newidiadau y byddai'r Cadeirydd yn cytuno arnynt â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. Dylid nodi yma y byddai'n ofynnol i'r amserlen yn yr adroddiad ddynodi bod y Gwaith Hydrogen ym Mrynmenyn a safle'r Fferm Solar ym Bryncethin (yn hytrach na'r hyn a nodir yn yr adroddiad, sydd o chwith).(3) Bod hawliau siarad i Wrthwynebwyr yn cael eu hestyn i 10 munud, ac y gallai mwy nag 1 gwrthwynebydd rannu'r amser hwnnw, a bod yr amser i Ymgeisydd ymateb hefyd yn cael ei estyn i 10 munud.(4) Y byddai'r Cadeirydd yn hysbysu'r Pwyllgor o ddyddiad y Cyfarfod Arbennig wedi i ddyddiad addas gael ei bennu.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 7 MEDI 2023

14. Y Cofnod Hyfforddiant

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau'n nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a oedd yn amlinellu sesiynau hyfforddi nesaf y Pwyllgor
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

15. Eitemau Brys

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd yna unrhyw eitemau brys
Dyddiad gwneud y penderfyniad	7 Medi 2023

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon